Cynllun diben ar gyfer cyflawni diben cyhoeddus y BBC: Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

Diffiniad Ymddiriedolaeth y BBC o gylch gwaith y diben

Gall gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr y BBC ddibynnu ar y BBC i ddarparu gwasanaethau newyddion sy'n cael eu parchu'n rhyngwladol i gynulleidfaoedd o bedwar ban byd, a gallant ddisgwyl i'r BBC roi'r newyddion diweddaraf iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, gan roi syniad iddynt o sut mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill.

Blaenoriaethau'r diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, wedi rhannu'r cylch gwaith hwn yn dair blaenoriaeth benodol:

1 Meithrin dealltwriaeth fyd-eang o faterion rhyngwladol:
   a) Darparu darllediadau newyddion rhyngwladol o'r radd flaenaf.
   b) Galluogi unigolion i gymryd rhan yn y drafodaeth fyd-eang am faterion rhyngwladol o bwys.
2 Cryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cynulleidfaoedd y DU o faterion rhyngwladol.
3 Ehangu profiad cynulleidfaoedd y DU ac agor y drws iddynt ar wahanol ddiwylliannau o bob cwr o'r byd.

Perfformiad o'i gymharu â'r diben

Mae llawer o wasanaethau ac adrannau'r BBC yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu diben byd-eang y BBC. Mae BBC Global News (y mae'r BBC World Service yn rhan ohono) a BBC Worldwide (sydd y tu allan i gwmpas y cylchoedd gwaith a'r cynlluniau diben) yn cynrychioli'r BBC i gynulleidfaoedd o bedwar ban byd. Gartref, nod BBC News yw parhau i fod yn feincnod ar gyfer newyddiaduraeth ryngwladol, gan helpu cynulleidfaoedd y DU i gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau'r byd ac i ddeall yr amrywiaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau ledled y byd.

Er mai BBC Global News fydd yn arwain y ffordd o ran cyflawni rhan gyntaf y diben hwn – "dod â'r DU i'r byd" – a bod gwasanaethau domestig ar draws teledu, radio ac ar-lein yn gwneud cyfraniad pwysig o ran "dod â'r byd i'r DU", mae'n bwysig pwysleisio y bydd cydweithio ar draws adrannau domestig a rhyngwladol y BBC yn dod yn fwy a mwy pwysig er mwyn cyflawni'r diben. Er enghraifft, BBC News fydd yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o'r cynnwys newyddion i BBC Global News a bydd BBC Monitoring (uned monitro cyfryngau ffynhonnell agored fyd-eang Global News) yn gwneud cyfraniad pwysig o ran gwella dealltwriaeth o sut mae'r cyfryngau ledled y byd yn adrodd ar ddigwyddiadau yn y DU.

Wrth gyflawni'r diben hwn, mae'r BBC mewn sefyllfa gymharol gryf:

- **Cyrraedd:** Mae gwasanaethau newyddion byd-eang y BBC ar y teledu, radio ac ar-lein gyda'i gilydd yn cyrraedd dros 230 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos.
- **Brand ac enw da:** Ar y cyfan, ar draws marchnadoedd ac arolygon mae'r BBC yn parhau i gael ei hystyried fel y darparwr newyddion rhyngwladol mwyaf gwrthrychol a dibynadwy.
- **Effaith:** Diolch i'n cyrraedd byd-eang, mae'r BBC yn gallu darparu adroddiadau i gynulleidfaoedd yn y DU a thramor sydd heb eu hail o ran ystod a dyfnder fel a welir, er enghraifft, trwy'r sylw a roddir i ddigwyddiadau byd-eang o bwys fel rhyfel Iraq.
- **Ôl troed byd-eang:** Y BBC sy'n gweithredu'r rhwydwaith casglu newyddion rhyngwladol mwyaf yn y byd.
- **Arbenigedd ac amrywiaeth amlieithog:** Mae'r BBC yn gweithredu mewn 33 iaith ledled y byd, gan ddarparu amrywiaeth eang o arbenigedd a safbwyntiau lleol.

Mae'r BBC yn wynebu her fawr o ran cyflawni'r diben byd-eang a chynnal ei sefyllfa fel y darparwr newyddion a gwybodaeth ryngwladol mwyaf a mwyaf dibynadwy yn y byd. Mae marchnadoedd,

technolegau ac anghenion cynulleidfaoedd yn amrywiol ac yn newid yn gyflym – mae angen i'r BBC fod yn bresennol ar y llwyfannau cywir gyda'r ddarpariaeth gywir i adlewyrchu gofynion amrywiol y gynulleidfa.

Mae'n amlwg bod rhaid i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi a datblygu ei darpariaeth, cynnal ansawdd, sicrhau cynnyrch unigryw a dod yn fwy perthnasol i'r cynulleidfaoedd.

Ymateb y tîm rheoli i'r heriau

Yn 2006, cymeradwyodd Llywodraethwyr y BBC ar y pryd strategaeth Global News hyd 2010. Dyma elfennau allweddol y strategaeth honno:

- Un strwythur cydlynol ar gyfer gwasanaethau newyddion byd-eang i ddefnyddwyr, gyda'r Global News Division yr unig sianel ar gyfer ymelwa ar hawliau newyddion yn rhyngwladol.
- Blaenoriaethu marchnadoedd yn glir i sicrhau ffocws, o ystyried bod adnoddau yn brin.
- Fframwaith ariannu cydlynol sy'n cydnabod y bydd cyllid yn sicr o ddod o ffynonellau cymysg – rhywfaint o gyllid cyhoeddus a rhywfaint o gyllid masnachol ar gyfer gwasanaethau newyddion rhyngwladol.
- Sicrhau un brand sengl ar gyfer gwasanaethau newyddion byd-eang yn Saesneg.
- Buddsoddi mewn blaenoriaethau gwasanaeth allweddol, gan gynnwys rhaglenni teledu Saesneg ar gais ac mewn ieithoedd brodorol.

Ers hynny, mae'r BBC wedi cwblhau cynllun strategaeth chwe blynedd ledled y sefydliad Dyfodol Creadigol. Mae elfennau allweddol Dyfodol Creadigol wedi'u manylu yn y cynlluniau diben eraill, ac mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â diben byd-eang y BBC. Er enghraifft, mae'r cynllun diben Dinasyddiaeth yn amlinellu mentrau newyddiaduraeth a fydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun y diben byd-eang.

Mae Global News wrthi'n datblygu'r agenda Dyfodol Creadigol gyda phrosiect a gomisiynwyd yn ddiweddar, sef *Delivering Creative Future in Global News*. Nod y gwaith hwn yw rhoi themâu rhaglen Dyfodol Creadigol y BBC ar waith a phennu'r ffordd fwyaf effeithiol i wasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC (BBC World Service, BBC World a bbc.com/news yn bennaf) weithio gyda'i gilydd i geisio sicrhau safonau uchel cyson mewn perthynas â newyddiaduraeth berthnasol, ddibynadwy, ddiduedd ac ystyriol ar gyfer ein cynulleidfaoedd targed. Un o amcanion eraill y prosiect yw rhoi mwy o gnawd ar esgyrn y strategaeth wreiddiol er mwyn llunio cynlluniau penodol ar gyfer y farchnad. Y nod yw sicrhau y gall y BBC ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i **farchnadoedd blaenoriaeth** ar y **llwyfannau mwyaf perthnasol**. Mae gwasanaethau a marchnadoedd blaenoriaeth wedi'u diffinio er mwyn sicrhau ein bod yn cadw golwg ar y nod - fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y BBC yn ymwybodol o'r newidiadau byd-eang. Dyma'r blaenoriaethau cyfredol:

1 Saesneg byd-eang

Bydd Saesneg yn parhau i fod yn iaith graidd y ddarpariaeth fyd-eang, gan wasanaethu dylanwadwyr ledled y byd. Mae angen i'r ddarpariaeth Saesneg fyd-eang fod yn **bortffolio amlgyfrwng llawn**, gan gynnwys gwasanaethau teledu a radio llinol a gwasanaethau digidol ar gais trwy gyfrwng testun, sain a fideo. Bydd swyddogaethau'r gwahanol gyfryngau'n amrywio yn ôl datblygiad y farchnad. Bydd gwasanaethau masnachol (BBC World a bbc.com/news) yn gwneud cyfraniad allweddol yn y marchnadoedd mwy datblygedig. Bydd gorsafoedd radio Saesneg y World Service yn parhau i dargedu dylanwadwyr mewn ardaloedd lle gallant gael effaith gost-effeithiol – yn enwedig mewn marchnadoedd llai masnachol. Er bod Global News yn gweithredu model cyllid cymysg yn Saesneg, newyddiaduraeth ddifrifol o'r safon uchaf, sy'n cefnogi uchelgeisiau gwasanaeth cyhoeddus, yw'r diben eithaf ar gyfer pob cyfrwng.

2 Marchnadoedd iaith allweddol
Bydd y BBC yn ceisio darparu gwasanaeth amlgyfrwng brodorol mewn marchnadoedd iaith sy'n flaenoriaeth – y byd Arabaidd ac Islamaidd ehangach, gan gynnwys Pacistan, Iran ac Indonesia; a Tsieina, Rwsia, India, a gwledydd America Ladin ble y siaredir Sbaeneg.

3 Marchnadoedd iaith eraill
Bydd y BBC yn parhau i wasanaethu marchnadoedd **llai datblygedig** allweddol yn Affrica ac Asia, fel Nigeria a Bangladesh, yn ogystal â nifer o farchnadoedd iaith sy'n **brin o wybodaeth** ac sydd ag angen clir am wybodaeth annibynnol. Mae angen i'r ddarpariaeth yn yr ieithoedd hyn ganolbwyntio ar y cyfryngau mwyaf perthnasol ar gyfer eu marchnadoedd, gyda phwyslais cryf ar ddarpariaeth gost-effeithiol.

Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau rhyngwladol, mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynulleidfaoedd yn y DU yn elwa ar arbenigedd ac ystod cynulleidfa BBC Global News. Mae mentrau'n cynnwys newid y strwythurau a'r prosesau mewnol fel y gall pob gwasanaeth newyddion weithio gyda'i gilydd yn well – er enghraifft, creu'r ganolfan newydd ar gyfer newyddion byd-eang. Bydd gwasanaethau'r DU hefyd yn rhyngweithio mwy â gwasanaethau iaith sydd â gwybodaeth sylweddol am y marchnadoedd maent yn eu gwasanaethu.

Y tu hwnt i'r strategaeth Global News, bydd y BBC hefyd yn parhau i ddefnyddio'i gwasanaethau teledu a radio domestig i ymdrin â materion rhyngwladol a gwella dealltwriaeth cynulleidfa'r DU o'r byd o'i chwmpas. Fel rhan o hyn, rhoddir sylw i newyddion rhyngwladol mewn bwletinau rheolaidd, sylw trylwyr i bynciau rhyngwladol mewn rhaglenni dogfen a materion cyfoes a llwyfan i greadigrwydd a thalentau rhyngwladol o safon trwy ffilm a rhaglenni eraill a brynir.

Mae tîm rheoli'r BBC yn ystyried y bydd y cynigion hyn yn gwneud llawer i sicrhau y gellir cyflawni'r diben byd-eang ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r tîm rheoli'n cydnabod yr angen i fod yn hyblyg mewn amser o newidiadau cyflym a chaiff y cynigion hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n gyson.

Cyflawni blaenoriaethau'r diben

1 a) Darparu darllediadau newyddion rhyngwladol o'r radd flaenaf
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai newyddiaduraeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol arddel yr un gwerthoedd â'i newyddiaduraeth ar gyfer cynulleidfaoedd y DU: cywirdeb, annibyniaeth a bod yn ddiduedd. Dylai cynulleidfaoedd rhyngwladol weld gwerth yng ngwasanaeth newyddion a materion cyfoes y BBC am ei fod yn cynnig ystod a dyfnder o wybodaeth ddibynadwy, ddiduedd a pherthnasol."

Er y caiff **BBC Global News** ei ariannu ar wahân i wasanaethau cyhoeddus domestig y BBC, ei nod yw gwneud cyfraniad fel rhan hanfodol a deinamig o'r gorfforaeth, gan gynrychioli'r BBC ledled y byd ochr yn ochr â BBC Worldwide. Mae Global News yn cynnwys nifer o wahanol wasanaethau mewn 33 iaith, gan gynnwys y World Service (a World Service Trust), BBC World, goruchwyliaeth olygyddol o bbc.com/news, a BBC Monitoring. Er gwaethaf cymhlethdod y gwasanaethau hyn, mae tîm rheoli Global News yn cydnabod bod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd ledled y byd yn uniaethu yn syml iawn â'r 'newyddion gan y BBC' ac mae Global News yn gwneud mwy a mwy i drefnu ei strwythur a'i weithredoedd i gyd-fynd â'r syniad syml hwn.

BBC News fydd partner cyflenwi mwyaf BBC World Service a BBC World o hyd. Adlewyrchir ansawdd ei newyddiaduraeth yn enw da dwy ran y gorfforaeth trwy holl amserlenni'r gorsafoedd radio Saesneg a gwasanaethau iaith eraill. Byddwn yn parhau i adolygu'r ieithoedd rydym yn darlledu ynddynt a'r llwyfannau a ddefnyddir i sicrhau bod y cynnwys mwyaf priodol yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf cyfleus i'n cynulleidfaoedd.

Bydd rhwydwaith y BBC o newyddiadurwyr rhyngwladol yn parhau i sicrhau bod ei ddarpariaeth newyddion fyd-eang yn rhagori ar ddarpariaeth darlledwyr eraill (yn enwedig ar adeg pan fo llawer o'r gystadleuaeth yn dechrau casglu llai o newyddion tramor a rhoi llai o sylw iddo yn y bwletinau). Bydd adnoddau ac arbenigedd golygyddol penodol BBC Global News yn cyfrannu at gyflawni'r

flaenoriaeth hon trwy sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am anghenion y gynulleidfa ryngwladol a'u disgwyliadau o ran newyddion gan y BBC. Bydd holl wasanaethau newyddion y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn adroddiadau, sylwebaeth a dadansoddiad o safon, ym mhle bynnag mae'r newyddion yn digwydd (yn amodol ar allu cael mynediad). Byddwn yn ymchwilio i straeon o bwys ac yn cynnig amrywiaeth o sylwadau a barn, gan wahodd ein gwrandawyr, gwylwyr a defnyddwyr i ddod i'w casgliadau eu hunain.

Bydd y BBC yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o wella sut mae'n rheoli ac yn cyflenwi ei darpariaeth newyddion trwy gynnig mwy o gyfleoedd i gydgysylltu'n well, darparu mwy o gydlyniad wrth gomisiynu a darparu dulliau cyfathrebu mewnol haws a mwy o gydweithio: bydd yr holl bethau hyn yn gwella profiad y defnyddiwr. Bydd BBC Global News yn parhau i asesu'i ddarpariaeth, a'i gwella yn ôl y gofyn.

Bydd y BBC yn sicrhau ei bod yn recriwtio ac yn cadw newyddiadurwyr o safon trwy ddenu'r talentau gorau yn y DU ac yn rhyngwladol a thrwy ddarparu cymorth a hyfforddiant trylwyr i'w newyddiadurwyr, gan sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau, y cyfarpar a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddarparu newyddion diduedd o safon uchel i gynulleidfaoedd a chynnal lefelau ymddiriedaeth uchel.

Bydd **BBC Monitoring** yn parhau i wasanaethu ei randdeiliaid a'i bartneriaid fel ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy trwy fonitro cyfryngau byd-eang, gan gynnal ei enw da fel canolfan ragoriaeth ac adnodd unigryw ymhlith darlledwyr rhyngwladol.

1 b) Galluogi unigolion i gymryd rhan yn y drafodaeth fyd-eang am faterion rhyngwladol o bwys

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC oleuo sgyrsiau a thrafodaeth gan ddarparu fforymau lle gall ei chynulleidfaoedd rhyngwladol drafod materion sydd o bwys iddynt."

Darlledu llinol fydd y prif wasanaeth, fel ag y mae heddiw a, hyd yn oed yn yr oes ddigidol, bydd BBC Global News yn darparu cynnwys ar gyfer y cynulleidfaoedd ehangaf.

Mae natur technoleg ddigidol hefyd yn golygu bod mwy o gyfle i gysylltu â chynulleidfaoedd – a bydd BBC Global News yn ystyried yn ofalus wahanol anghenion mynediad ei gynulleidfaoedd amrywiol ac yn parhau i chwilio am ffyrdd o roi llais i'w wrandawyr, ei wylwyr a'i ddefnyddwyr. O negeseuon e-bost a ddarllenir gan gyflwynwyr a chwestiynau i arweinwyr y byd, i wefannau ac ystafelloedd sgwrsio lle gall pobl drafod ymysg ei gilydd yn rhydd rhag ofn a sensoriaeth, bydd y BBC yn sicrhau bod lle ar gael i gefnogi democratiaeth wybodus a rhyddid i fynegi barn.

Bydd BBC Global News yn parhau i gynhyrchu tymhorau o raglenni ar broblemau byd-eang allweddol fel modd o ymgysylltu cynulleidfaoedd â'r materion pwysig a'u helpu i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

Bydd BBC Global News yn ymgysylltu'n frwdfrydig â mentrau ledled y BBC ehangach, ac wrth gydweithio a chyfathrebu ag adrannau eraill o'r gorfforaeth bydd yn ceisio rhoi sylw i ddigwyddiadau a straeon rhyngwladol o bwys mewn ffyrdd diddorol a chreadigol, gan dynnu ar arfer gorau o'r Gwasanaethau Cartref a'i addasu ar gyfer anghenion ei gynulleidfaoedd ei hun, fel sy'n briodol.

Bydd bbc.com yn defnyddio'i borth gwe pwrpasol i uno defnyddwyr ledled y byd trwy ddarparu cynnwys hygyrch a mannau i rannu sylwadau.

2 Cryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cynulleidfaoedd y DU o faterion rhyngwladol

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddarparu arlwy o safon uchel sy'n ymwneud â materion byd-eang yn ei chynnyrch newyddion a materion cyfoes ac mewn cynnyrch arall ar gyfer y DU. Dylai'r arlwy wasanaethu pob cynulleidfa a sicrhau safbwyntiau eang. Dylai'r BBC gynnig gwasanaeth o safon o ran monitro cyfryngau rhyngwladol."

Bydd newyddiaduraeth y BBC yn y DU yn adlewyrchu agenda leol, genedlaethol a byd-eang. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o leisiau rhyngwladol ledled ei rhaglenni newyddion, gan gynnwys cyfweliadau trylwyr â ffigurau arwyddocaol. Bydd rhaglenni dogfen a newyddiaduraeth ffurf hir ar y teledu ac ar y radio'n cynnwys pynciau rhyngwladol. Caiff y sylw a roddir i faterion a digwyddiadau rhyngwladol ei gefnogi gan ohebwyr a chanolfannau casglu newyddion rhyngwladol y BBC, sy'n gallu dadansoddi newyddion a'i roi yn ei gyd-destun.

BBC One a BBC Two fydd y prif wasanaethau teledu o safbwynt newyddion, digwyddiadau a materion byd-eang, a byddant yn eu darparu mewn ffordd hygyrch a llawn her i gynulleidfaoedd eang yn y DU. Byddant yn ceisio denu defnyddwyr newydd heb ddieithrio'u cynulleidfaoedd craidd a'r rheini sydd eisoes â rhywfaint o wybodaeth am y stori dan sylw. Wrth wneud hynny, bydd y BBC yn sicrhau bod ei safonau a'i henw da mewn perthynas â newyddion rhyngwladol yn cael eu cynnal. Bydd safbwyntiau rhyngwladol yn nodweddiadol o raglenni newyddion BBC Four. Bydd y bwletinau newyddion ar CBBC yn cynnwys digwyddiadau a materion rhyngwladol ac yn cyflwyno safbwyntiau eang i wylwyr ifanc.

Ledled y portffolio, bydd cynnyrch materion cyfoes, ffeithiol a dogfen y BBC yn rhoi sylw rheolaidd i bynciau a straeon rhyngwladol mewn ffordd annibynnol ac awdurdodol. Bydd gan BBC One gyfraniad pwysig i'w wneud o ran dod â materion rhyngwladol o bwys i sylw cynulleidfaoedd eang trwy ei rhaglenni ffeithiol yn enwedig. Bydd gan raglenni materion cyfoes a dogfen BBC Two agenda ryngwladol gref, a bydd strategaeth rhaglenni dogfen BBC Four hefyd yn cynnwys archwiliadau trylwyr, wedi'u hysgrifennu'n dda, o bynciau rhyngwladol. Bydd BBC Three hefyd yn dod â materion rhyngwladol i sylw oedolion iau trwy ei deunydd newyddion a materion cyfoes.

Bydd newyddiaduraeth lafar ar y radio ledled portffolio'r BBC – gan gynnwys gwasanaethau radio'r gwledydd – yn rhoi sylw eang i faterion a digwyddiadau rhyngwladol. Bydd rhaglenni dogfen a ffeithiol ar Radio 4 yn enwedig yn archwilio materion a digwyddiadau rhyngwladol yn drylwyr a manwl, ac yn fwy eang na gwasanaethau radio eraill yn y DU. Bydd darlithoedd blynyddol Reith yn parhau, gan addysgu cynulleidfaoedd byd-eang trwy Radio 4 ar-lein a'r BBC World Service.

Mae amser a lle gan wasanaethau newyddion parhaus y BBC – BBC News Channel, Radio 5 Live a bbc.co.uk/news – i roi sylw cynhwysfawr a thrylwyr i faterion byd-eang. Bydd y BBC News Channel yn parhau i gynnig agenda newyddion fwy rhyngwladol na'r prif sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU. Bydd sgyrsiau a thrafodaethau Radio 5 Live yn cwmpasu pynciau rhyngwladol yn rheolaidd ac yn cynnwys y bobl sy'n gwneud y newyddion ac arbenigwyr rhyngwladol.

Bydd bbc.co.uk yn rhoi sylw estynedig i faterion rhyngwladol, gan ddarparu cyd-destun a fydd yn galluogi defnyddwyr i ddeall yn well y digwyddiadau allweddol hynny sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd y DU. Caiff tudalennau newyddion eu diweddaru'n rheolaidd, gan roi sylw i'r straeon newyddion diweddaraf wrth iddynt ddigwydd yn ogystal â darparu dadansoddiad trylwyr a dibynadwy o ddatblygiadau pwysig. Bydd bbc.co.uk yn casglu ynghyd a chyflwyno'r cynnwys ar-lein gorau – o wefannau'r BBC ac o ffynonellau eraill – mewn perthynas â'r prif straeon newyddion rhyngwladol i gynulleidfaoedd y DU ac yn darparu gwybodaeth fanwl am wledydd ledled y byd, gan gwmpasu hanes, gwleidyddiaeth a chefndir economaidd y gwledydd hynny a gwybodaeth gefndir am sefydliadau allweddol.

Trwy BBC Monitoring, bydd y BBC yn cynnig gwasanaeth o safon ym maes monitro cyfryngau rhyngwladol i sicrhau bod y BBC yn canolbwyntio ar y materion byd-eang anodd fel geowleidyddiaeth a rhyfel o safbwynt newyddiadurol a bod profiadau a straeon unigol a ddefnyddir i esbonio'r newyddion yn cael eu gosod mewn cyd-destun ehangach.

3 Ehangu profiad cynulleidfaoedd y DU ac agor y drws iddynt ar wahanol ddiwylliannau o bob cwr o'r byd

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddarparu cynnyrch sy'n cynyddu gwybodaeth holl gynulleidfaoedd y DU am gymdeithasau eraill o bob cwr o'r byd a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Dylai'r

BBC hefyd geisio dod â cherddoriaeth, ffilmiau, celfyddydau a gwaith creadigol arall rhyngwladol o safon i gynulleidfaoedd y DU."

Bydd y BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cynyddu gwybodaeth cynulleidfaoedd y DU am gymdeithasau eraill ledled y byd a'r hyn sy'n bwysig iddynt, a bydd hynny'n amlwg yn ei hymrwymiad i gynnwys cerddoriaeth, ffilmiau a chelfyddydau rhyngwladol a gwaith creadigol arall o safon ymhob un o'i gwasanaethau. Bydd yn cyflwyno cynnwys o'r UDA, yn ogystal â'r gwaith creadigol gorau o bedwar ban byd.

Bydd BBC Two – mewn cydweithrediad â BBC Four – yn cynnig rhaglenni, nad ydynt yn rhaglenni newyddion, sy'n adlewyrchu themâu rhyngwladol: y gorau o bedwar ban byd o'r celfyddydau, cerddoriaeth, rhaglenni dogfen a ffilm, er enghraifft, sy'n helpu i roi ymdeimlad o le i gynulleidfaoedd y DU a rhoi straeon newyddion yn eu cyd-destun trwy archwilio datblygiadau diwylliannol. Mae gan BBC Four gyfraniad penodol i'w wneud o ran dangos ffilmiau tramor, ond bydd gwasanaethau teledu eraill hefyd yn prynu cyfresi a ffilmiau tramor o safon ar gyfer eu cynulleidfaoedd.

Bydd rhaglenni cerddoriaeth ar y radio'n cyflwyno'r talentau cerddorol gorau yn y byd i gynulleidfaoedd y DU. Bydd Radio 1 a Radio 2 yn rhoi sylw i ddigwyddiadau cerddoriaeth dethol o bedwar ban byd. Trwy'r holl wasanaethau radio, bydd rhaglenni llafar yn archwilio amrywiaeth o gerddoriaeth, hanes a diwylliant rhyngwladol.

Bydd Radio 3 yn cyflwyno cerddoriaeth a chelfyddydau o'r tu allan i'r DU i'w gwrandawyr – yn aml mewn partneriaeth â darlledwyr o'r tu allan i'r DU. Bydd yn parhau i roi sylw rhyngwladol i berfformiadau cerddorol, gan gynnwys darllediadau o operâu llawn.

Bydd Radio 5 Live yn rhoi sylw estynedig i chwaraeon tramor, o sylwebaeth i newyddiaduraeth drylwyr, gan gynnwys tymhorau achlysurol sy'n edrych ar chwaraeon penodol a'u heffaith ar y byd o'n cwmpas. Bydd 5 Live Sports Extra yn ategu'r ddarpariaeth hon trwy roi sylw i chwaraeon byw a rhai digwyddiadau rhyngwladol o bwys, fel y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a phêl-droed Ewropeaidd. Bydd chwaraeon rhyngwladol byw ac uchafbwyntiau'n parhau i fod yn rhan werthfawr o'n hamserlenni teledu, ar yr amod ein bod yn llwyddo i sicrhau'r hawliau iddynt.